**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**13 IONAWR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Iau, 13 Ionawr 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Richard Lloyd, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Billy Mullin – Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts – Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Paul Johnson - Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwyr Cyllid Strategol, Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygiad Sefydliadol) a'r Ymgynghorydd Perfformiad Strategol

Ar gyfer cofnod rhif 70
Helen Kilgannon, Rheolwr Rhanbarthol ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd Tîm (Pwyllgorau)

## 66. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 67. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Rhagfyr 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Haydn Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 68. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu adroddiad ar gynnydd y camau gweithredu oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol. Yn unol â'r cais, byddai'n cylchredeg copi o'r llythyr a gafodd ei anfon at y Bwrdd Iechyd i'r holl Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**69. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Wrth gyflwyno'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a ddiweddarwyd i'w hystyried, dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu bod y cyfarfod ym mis Mawrth yn debygol o fynd ymlaen.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton ac Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; ac

(b) Awdurdodi'r Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu, ar ôl ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**70. GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol ar gyfer 2020/21 sy'n amlinellu gweithgareddau a wnaed yn lleol a rhanbarthol i fodloni dyletswyddau deddfwriaethol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Rhanbarthol drosolwg o'r prif feysydd gwaith yn ystod y cyfnod a oedd yn canolbwyntio ar yr ymateb aml-asiantaeth i'r pandemig Covid-19. Cafodd diweddariad ar weithgareddau lleol ei rannu hefyd, yn cynnwys effeithiolrwydd y Tîm Ymateb i Reoli Argyfwng ac adolygu Cynlluniau Parhad Busnes i gefnogi parhad gwasanaethau critigol yn ystod y pandemig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Haydn Bateman, rhoddodd y Rheolwr Rhanbarthol eglurhad ar drefniadau diogelwch a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r gwneuthurwr cemegol lleol, Synthite.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at ymweliad safle i ystafell rheoli'r Heddlu ychydig o flynyddoedd yn ôl a gofynnodd am y posibilrwydd o gael ymweliad yn y dyfodol. Er nad oedd hyn yn bosibl yn ystod y pandemig, dywedodd y Prif Weithredwr bod modd cynnal ymweliad safle yn y dyfodol pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny a gyda phwrpas clir. Gofynnodd i'r Rheolwr Rhanbarthol nodi'r cais fel y gellir ei ystyried ar adeg briodol.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton ac Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd yn sgil y diweddariad; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau am barodrwydd y Cyngor i gynllunio rhag argyfyngau ac adroddiadau dilynol penodol am unrhyw

ddigwyddiadau argyfwng lleol neu ranbarthol mawr y bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt.

## 71. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2022/23

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i ddiweddaru'r Pwyllgor ar brif benawdau ac effeithiau ariannol Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, cyn proses gosod y gyllideb ffurfiol y Cyngor ym mis Chwefror.

Roedd y cyllid allanol cyfun dros dro ar gyfer 2022/23 yn gynnydd o 9.2% ar y cyllid allanol cyfun a addaswyd ar gyfer 2021/22 – sydd ychydig yn is na chynnydd cyfartalog Cymru gyfan o 9.4%. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd ariannol o £25.396 miliwn o 2021/22 ond nid oedd yn ystyried ffioedd clwyd Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, lle derbyniwyd y ddau yn flaenorol drwy grantiau penodol. Yn ychwanegol, roedd disgwyl i fodloni effeithiau'r holl ddyfarniadau cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn llawn yn ogystal â'r risgiau parhaus fel Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a chostau ychwanegol parhaus ac incwm a gollwyd oherwydd y pandemig yn dilyn dod â Chronfa Galedi Llywodraeth Cymru i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Byddai'r pwysau ychwanegol hyn yn cynyddu'r gofyniad cyllideb ychwanegol cyffredinol ag adroddwyd yn flaenorol, a oedd wedi'i seilio ar y lefel isaf ac o dan lefelau galw yn ystod y flwyddyn. Unwaith i'r gwaith ar adolygu'r holl bwysau cost ychwanegol gael ei gwblhau, bydd angen argymell cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2022/23 gan y Cabinet i'r Cyngor ym mis Chwefror. Byddai adeiladu gwydnwch i mewn i gronfeydd wrth gefn yn ystyriaeth allweddol o osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 ac ar gyfer y Strategaeth Cyllid Tymor Canolig, yn enwedig o ystyried y dyraniadau dangosol heriol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad, croesawodd y Cynghorydd Paul Shotton y Setliad cynyddol ond bu iddo gydnabod bod dyraniadau dangosol y dyfodol, costau byw cynyddol a sefyllfa ariannu Sir y Fflint yng Nghymru yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal trafodaethau parhaus gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud achos am ariannu mwy teg.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod dyraniad Sir y Fflint yn is na chyfartaledd Cymru ac roedd ei safle fel yr 20fed Cyngor allan o 22 yng Nghymru ar gyllid y pen yn bryder parhaus. Wrth dynnu'r cyllid gwaelodol ychwanegol, a oedd yn bwriadu diogelu Cynghorau rhag disgyn llawer is na chyfartaledd Cymru, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y penderfyniad gan LLC o bosibl wedi cael ei ddylanwadu gan y Setliad.

Bu i'r Cynghorydd Ian Roberts hefyd groesawu'r cynnydd yn y Setliad ond dywedodd y byddai angen i ragamcanion cyllideb cyfredol y Cyngor ystyried nifer o bwysau sylweddol nad oedd wedi'u cwblhau eto. Cyfeiriodd at effaith ehangach canlyniadau ar ddyfarniadau cyflog athrawon a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac ategodd yr angen i gytundebau cyflog cenedlaethol gael eu hariannu'n llawn.

Gan ateb cwestiwn y Cynghorydd Sean Bibby am gymharu dyraniadau a roddwyd i awdurdodau cyfagos, eglurodd y swyddogion bod yr adroddiad wedi'i seilio ar y cyfartaledd ar draws Gogledd Cymru a oedd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol a bod yr anghydraddoldeb cyllid yng Nghymru yn cael ei godi ar lefel Gweinidogol.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson am effeithiau ehangach chwyddiant a'r angen i ystyried cyllideb 2022/23 yn ofalus yng nghyd-destun blynyddoedd i ddod.

Siaradodd y Prif Weithredwr am yr angen i'r Cyngor gryfhau gwydnwch ariannol yn enwedig o ystyried dylanwad pwysau chwyddiant fel risg parhaus.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones, er bod y setliadau mynegol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cael eu croesawu, roeddent yn is na'r disgwyl. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod gwaith manwl yn cael ei wneud i adolygu pwysau cost allweddol a newidiadau i grantiau fel y gellir adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf ym mis Chwefror.

Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, eglurhad ar effaith ariannol presennol rhoi'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar waith wrth ddisgwyl am y canlyniad ar gyfer 2022/23. Dywedodd hefyd y byddai'r problemau gyda recriwtio a chadw staff ar draws pob sector - a oedd wedi'i gydnabod yn eang - yn ffurfio rhan o'r Strategaeth Pobl yn nes ymlaen ar y rhaglen.

Cynigodd y Cynghorydd Jones bod y Pwyllgor yn cydnabod dyraniadau dangosol ond mynegodd siomedigaeth nad yw LLC yn ystyried rhoi dyraniad ychwanegol tuag at ddyfarniadau cyflog cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23, bod y Pwyllgor yn dymuno rhoi adborth yn ôl i'r Cabinet am ei gydnabyddiaeth o'r dyraniadau dangosol a'i siomedigaeth o ran Llywodraeth Cymru yn peidio ag ystyried rhoi dyraniad ychwanegol tuag at ddyfarniadau cyflog cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

## 72. CYNLLUN Y CYNGOR 2022/23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i adolygu Cynllun Drafft y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn cynnwys yr 'uwch strwythur' o chwe thema sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Lles. Roedd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu ategol yr un fath â 2021/22, gydag ychydig o ddatblygiadau i'r is-flaenoriaethau ar gyfer Tlodi, Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd, Economi ac Addysg a Sgiliau. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu cyn ei rannu gyda'r Cabinet, cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol bod yr amserlen yn rhoi cyfleoedd i gael cyfraniadau gan Aelodau sydd newydd gael eu hethol.

Er ei fod yn cydnabod fformat gwell y Cynllun, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod llawer o’r cerrig milltir tuag at ddiwedd y flwyddyn ac awgrymodd ddull ar gyfer mesur cynnydd i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol. Rhoddodd enghreifftiau o nifer o fentrau oedd ar goll ers y llynedd a dywedodd y dylid fod wedi cynnwys esboniadau.

Mewn ymateb, eglurodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol y dylai llawer o’r camau gweithredu dros y tymor hirach gael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2023 a byddai’r cynnydd yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau perfformiad chwarterol. Dywedodd nad oedd rhai o’r materion a gynhwyswyd yn y Cynllun ar gyfer y llynedd wedi’u tynnu gan eu bod bellach yn rhan o fusnes normal neu wedi’u cwblhau. Cafodd eglurhad ar symudiadau o’r fath ei adrodd yn y cam monitro canol blwyddyn ym mis Rhagfyr a bydd hefyd yn cael ei egluro yn yr adroddiad diwedd blwyddyn i gael ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ian Roberts at y thema Tlodi a rhoddodd eglurhad ar newidiadau cenedlaethol arfaethedig i brydau ysgol am ddim. Siaradodd o blaid y Cynllun ar gyfer 2022/23 a ellir ei addasu i fodloni blaenoriaethau’r weinyddiaeth newydd yn dilyn yr Etholiadau.

Wrth groesawu’r Cynllun, canmolodd y Cynghorydd Paul Shotton yr amrywiaeth o gyfleoedd ar draws y Sir.

Yn dilyn sylwadau gan y Cadeirydd, rhoddodd y Prif Weithredwr fwy o fanylion am y strategaeth i drosi fflyd cludiant y Cyngor i rai trydan a thanwyddau eraill fel hydrogen, tra bod y Cynghorydd Ian Roberts yn siarad am ddatblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Cyngor.

Croesawodd y Cynghorydd Richard Lloyd yr ystod o gamau gweithredu dan y flaenoriaeth Tai Fforddiadwy a Hygyrch. Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth am ymgysylltu â landlordiaid i helpu i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd a byddai’n cadarnhau gyda’r Tîm Gwella Cartrefi bod y cynllun yn cael ei hyrwyddo’n weithredol.

Yn dilyn cyngor gan y Prif Swyddog (Llywodraethu), cytunodd y Cynghorydd Shotton - a oedd wedi symud yr argymhelliad - ar newid gan y Cynghorydd Richard Jones i roi’r gair ‘Drafft’ cyn Cynllun y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adborth yn cael ei nodi ar y cynnwys wedi’i adnewyddu yn ymwneud â’r themâu ar gyfer Cynllun Drafft y Cyngor 2022-23 cyn ei rannu gyda’r Cabinet ym mis Mehefin 2022.

## 73. STRATEGAETH POBL A DATBLYGIAD SEFYDLIADOL 2022-2025

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygiad Sefydliadol, adroddiad ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd ar gyfer 2022-25.

Er bod yr ymateb i’r pandemig wedi tarfu ar adolygu’r Strategaeth Pobl presennol, roedd nifer o ganlyniadau cadarnhaol yn deillio o’r newidiadau mewn

arferion gweithio a ellir eu datblygu ymhellach. Byddai'r Strategaeth newydd yn amlinellu uchelgeisiau cynyddol ar gyfer y gweithlu a'r sefydliad, gan adlewyrchu ar ddigwyddiadau dros y 18 mis diwethaf ac adeiladu ar feysydd o arfer da. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffactorau allanol allweddol a chanlyniadau sy'n debygol o gael eu darparu dan bob thema a fyddai'n aros yn hyblyg i addasu i unrhyw newidiadau ac ymateb i risgiau fel recriwtio a chadw staff.

Canmolodd y Cynghorydd Arnold Woolley yr adroddiad ond roedd yn bryderus am y diffyg gwybodaeth ar werthusiadau blynyddol. Mewn ymateb, rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol sicrwydd bod hyn wedi'i gynnwys drwy gyflwyno rhaglen adolygu perfformiad newydd ar sail gwerthoedd.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at bwysigrwydd y Strategaeth o ran sicrhau bod gweithwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfranogiad yn glir o fewn y sefydliad ac y byddai fframio uchelgeisiau fel cyflogwr delfrydol yn helpu i greu diwylliant gweithlu cadarnhaol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Arnold Woolley a Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r blaenoriaethau strategol fel sylfaen ar gyfer datblygu iteriad nesaf y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol 2022-2025 cyn iddo gael ei roi i weithwyr ac Undebau Llafur ar gyfer ymgynghoriad ac adborth, cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

**74. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (MIS 8)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw fel yr oedd ym Mis 8 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried.

O ran Cronfa'r Cyngor, y sefyllfa diwedd blwyddyn ragamcanol - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i leihau pwysau costau ac i wella effeithlonrwydd - oedd gwarged gweithredol o £0.716 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflogau a fyddai'n dod o gronfeydd wrth gefn) a oedd yn adlewyrchu newid ffafriol o £0.061 miliwn o fis 7. Byddai hyn yn gadael balans y gronfa wrth gefn at raid ar ddiwedd y flwyddyn yn £6.586 miliwn. Roedd y symudiadau sylweddol o fis 7 fel ag amlinellwyd yn yr adroddiad. Rhoddwyd diweddariad ar risgiau amrywiol yn cynnwys aros am ganlyniadau dyfarniadau cyflog y NJC (Llyfr Gwyrdd) i gael eu bodloni gan y Gronfa Wrth Gefn At Raid, parhad cyllid grant Gofal Cymdeithasol i 2022/23 a chynnydd yn y galw am Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar y newidiadau i gymhwyster Cronfa Galedi Llywodraeth Leol sy'n effeithio ar hawliadau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol pan oedd yn dod i ben.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gorwariant arfaethedig o £0.548 miliwn yn gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.924 miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau ar wariant a argymhellir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, rhoddwyd eglurhad ar drosglwyddo costau eiddo canolog ar draws yr holl bortffolios i mewn i'r gyllideb Cyllid Canolog a Chorfforaethol.

Wrth ddiolch i'r swyddogion, dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson bod lefel y manylder yn yr adroddiad yn dangos rheolaeth ariannol dda.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Richard Lloyd.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 (Mis 8), fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## 75. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.45am)

..............................

**Y Cadeirydd**